
Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Newid Bywydau Gyda'n Gilydd

2021-2022

Yn helpu cymunedau adfer o'r pandemig












# Cynnwys


3. Croeso

4. Pwy ydym ni

5. Ein blwyddyn mewn rhifau

6. Rydyn ni'n bartneriaid da

8. Mae ots gennym ni am y bobl rydyn ni'n yn gweithio gyda nhw

10. Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth

13. Gweithio gyda'n gilydd

14. Y Flwyddyn i Ddod

15. Diolch

# Croeso



Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolwyr Sefydliad Cymunedol Cymru.

Rwyf wrth fy modd yn adrodd fod Sefydliad Cymunedol Cymru'n dal i ffynnu ac yn codi arian dyngarol newydd hanfodol ar gyfer grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Bydd y flwyddyn 2021 / 22 yn cael ei chofio am barhad y pandemig Covid-19 ac yn fwy diweddar, y sefyllfa brawychus yn yr Wcrain.

Dyma gefndir ein gwaith o ail adeiladu ar ôl blwyddyn gyntaf ansicr a brawychus Covid. Rydym wedi ail gysylltu â'n rhoddwyr ac arianwyr, ac yn deall y gwahanol, ac yn aml newidiol, anghenion y grwpiau cymunedol rydym yn eu cefnogi.

I ni, mae partneriaethau wedi bod yn ganolbwynt allweddol i'n stori eleni – mewn adeiladu partneriaethau newydd gyda rhoddwyr ac arianwyr yng Nghymru a thu hwnt, ond hefyd yn sut mae'n tîm o staff ac Ymddiriedolwyr yn treulio amser ac yn dysgu ynghylch sut y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae'r gwrando'n cael ei gyfieithu'n weithrediadau uniongyrchol, yn gwella sut rydym yn gweithio gyda'n rhoddwyr i ddarparu cefnogaeth hyd yn oed mwy hyblyg ac wedi'i deilwra, er mwyn sicrhau fod pob punt rydym yn gallu ei darparu yn rhoi'r gwerth a'r effaith gorau i'r bobl sydd ei hangen mwyaf.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fu'n cefnogi'n gwaith – rhoddwyr, arianwyr, ymddiriedolwyr, staff, llysgenhadon, Cyfeillion, aelodau o'r Rhwydwaith Cefnogwyr a llawer mwy.

Trwy eich help a chefnogaeth hael, bydd Sefydliad Cymunedol Cymru'n parhau i fynd o nerth i nerth wrth adeiladu arian cynaliadwy ar gyfer cymunedau Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Diolch yn fawr

*Alun Evans*

**Cadeirydd, Sefydliad Cymunedol Cymru**

# Pwy ydym ni

Am dros ugain mlynedd, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gydag arian i gryfhau cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n cefnogwyr hael i gyrraedd y bobl sydd gyda'r angen mwyaf ac yn helpu i greu cydraddoldeb a chyfle yng nghymunedau Cymru.

## Ein cenhadaeth

**Rydym yn ysbrydoli bobl i roi, i helpu cymunedau Cymru i ffynnu ac i newid bywydau gyda'n gilydd**

## Mae'n gwerthoedd wedi'u gwreiddio ym mhob peth rydym yn ei wneud:

- Rydym ni yn bartneriaid da
- Rydym yn dangos gofal am bobl sydd yn gweithio gyda ni
- Rydym yn gwneud gwahaniaethi

## Mae'r hyn rydym yn ei wneud yn cydfynd â nodau cenedlaethol a byd eang:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru**



Cymru Gydnerth

Cymru Fwy Cyfartal

Cymru Iachach

**Nodau Datblygu Cynaliadwyedd yr U.N.**



Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Swm y grant ar gyfartaledd

**£3,283**

Cefnogwyd dros

**400** grwpiau

Cyfradd llwyddiant i ymgeiswyr

**65%**

Cyfanswm y gwaddol


**£21.47m**

Cyfanswm incwm

**£2.38m**

## Cyfanswm gwariant

- 76% Grantiau
- 17% Costau'n gysylltiedig â Staff
- 2% Gorbenion swyddfa
- 6% Costau uniongyrchol eraill



Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Rydym yn bartneriaid da

## Gweithio gyda'n gilydd i helpu cenedlaethau'r dyfodol

Mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality wedi ymrwymo £100,000 i gefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol i helpu pobl ifanc ledled Cymru.

Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu

Rydym wedi mynd i bartneriaeth gyda'r gymdeithas adeiladu fwyaf yng Nghymru er mwyn cyflenwi grantiau o hyd at £5,000 yr un ar gyfer Cronfa Genedlaethau'r Dyfodol a fydd yn annog pobl ifanc i baratoi sgiliau ar gyfer eu byd gwaith yn y dyfodol, arian personol, canfod cyflogaeth a byw bywydau mwy cynaliadwy.

Meddai **Vicky Wales, Prif Swyddog Cwsmeriaid y Principality:**

> **Rydym wrth ein bodd yn cydweithio ar gronfa a fydd yn helpu cefnogi pobl ifanc ledled Cymru.**
>
> **Mae gan dîm Sefydliad Cymunedol Cymru angerdd wirioneddol dros helpu sefydliadau cymunedol, record amlwg o ddarparu dros lawer o flynyddoedd ac yn cael eu dal yn uchel iawn am y gwaith maen nhw'n ei wneud.**
>
> **Mae bleser gwirioneddol fod yn gweithio gyda nhw fel partner.**




## Cefnogi cymunedau yn Rhondda Cynon Taf

Roeddwn wrth ein bodd yn sefydlu partneriaeth newydd gyda Trivallis er mwyn rheoli ac hyrwyddo Cronfa Fuddsoddi Cymunedol Trivallis, sy'n cefnogi cymunedau yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r gronfa'n cefnogi grwpiau'n gweithio i gefnogi cynhwysedd cymdeithasol, iechyd a llesiant, dysgu a chyflogwyaeth a gwelliannau amgylcheddol cynaliadwy.

Mae Trivallis, landlord cymdeithasol cofrestredig gyda thros 10,000 o gartrefi ar draws De Cymru, wedi sefydlu cronfa gyda ni i gefnogi'i denantiaid a chymunedau lleol.

Cronfa FUDDSODDI Gymunedol Trivallis.

Meddai **Tracey Cooke, uwch reolwr partneriaethau yn Trivallis**

> **Yn Trivallis, rydyn ni'n falch o fod yn berchen ac yn reoli dros 10,000 o gartrefi ar draws Rhondda Cynon Taf. Trwy ein Cronfa Buddsoddi Cymunedol, sy'n cynnig grantiau o hyd at £5,000 i gefnogi grwpiau a sefydliadau yn ein cymunedau, rydym yn anelu at wella'r cyfleoedd i drigolion yn ein cymunedau cael mwynhau bywydau bodlon.**
>
> **Mae gennym ots am ein cymunedau ac rydym yn gweithio'n galed i wneud gwahaniaeth ac felly'n falch o weld rhywfaint o'r gwaith anhygoel mae'n Cronfa Buddsoddi Cymunedol eisoes wedi'i gefnogi; gyda grwpiau megis Valleys Veterans, Canolfannau Bywyd Awtistiaeth a Chat Cymraeg yn elwa o grantiau i gefnogi'u gwaith hanfodol ar draws RCT.**



## Adfywio Ymddiriedolaethau

Adfywio Ymddiriedolaethau yw raglen bartneriaeth i gynorthwyo ymddiriedolwyr cronfeydd sy'n cysgu. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Comisiwn Elusennau a Sefydliad Cymunedol Cymru i adfywio ymddiriedolaethau elusennol yng Nghymru sy'n canfod eu hunain yn wynebu anawsterau.

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

Mae'r rheolwr elusennau'n cysylltu ag ymddiriedolwyr cronfeydd elusennol sydd wedi bod yn cysgu ac yn eu hannog i lunio cynlluniau busnes newydd neu drosglwyddo'u cronfeydd i Sefydliad Cymunedol Cymru i gael eu rheoli er budd tymor hir cymunedau lleol.

Fel rhan o'r rhaglen Adfywio Ymddiriedolaethau, cefnogwyd Ymddiriedolwyr elusen T D Jones (Llanfair Clydogau) sy'n rheoli cronfa addysg ger Llanbedr Pont Steffan. Gweithiwyd gyda'r Ymddiriedolwyr i ehangu sgôp y gronfa ac i'w throsglwyddo i Sefydliad Cymunedol Cymru ble rydym erbyn hyn, yn gwneud defnydd elusennol da o'r gronfa, yn cyflwyno grantiau ac yn buddsoddi er mwyn twf.

Meddai **Paula Barker, Ymddiriedolwr yn T D Jones (Llanfair Clydogau):**

> **Fel llawer o eglwysi pentref bychain, mae'n cynulleidfa wedi edwino. Ymysg y nifer o broblemau'n codi o hyn oedd beth i'w wneud ynghylch swm o arian a oedd wedi'i adael at dibenion elusennol o ddarparu llyfrau ar gyfer plant yr Ysgol Sul. Roedd yr amcanion wedi'u newid i helpu plant ysgol lleol ond nid oedd ymddiriedolwyr yr elusen bellach ar gael i weithredu a doedd dim arian wedi'i ddosbarthu.**
>
> **Roedd yn gryn dipyn o ryddhad derbyn yr wybodaeth am y rhaglen Adfywio Ymddiriedolaethau. I ddechrau roedd yn ymddangos yn frawychus a'r broblem ar y cychwyn oedd cael hyd i'r llofnodwyr cywir ar gyfer y gwaith papur. Fodd bynnag, cefais fy arwain trwy pob cam o'r ffordd ac yn diwedd doedd dim anhawster o gwbl. Aeth y broses gyfan o drosglwyddo'r arian i Sefydliad Cymunedol Cymru'n llyfn.**
>
> **A'r peth mwyaf boddhaol o hyn i gyd yw y bydd yr arian erbyn hyn o help mawr ble mae ei angen ac rydym yn teimlo'n sicr y byddai'r rhoddwr gwreiddiol yn falch o hynny.**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Rydym yn dangos gofal am bobl sydd yn gweithio gyda ni

## Gwrando ar y grwpiau rydym yn gweithio gyda nhw



Mae rheoli arian ar gyfer y dyfodol yn gallu bod yn gymhleth, o allu cefnogi grwpiau yn y tymor hir, tra hefyd yn sicrhau fod arian ar gael i ariannu gwaith a syniadau newydd.

Rydym ni'n canolbwyntio ein harian ar grwpiau bychain ar lawr gwlad, sydd yn aml yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr ac wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. Grwpiau sy'n cael trafferth gallu neu adnoddau a gyda chynnal a pharhau gwasanaethau oherwydd yr her o ddenu arian sy'n cael ei gyfyngu fel arfer i 12 mis.

Mae'n wirioneddol bwysig i ni fel sefydliad ein bod yn dysgu o'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw, ac hyd yn oed yn bwysicach, ein bod yn defnyddio'r wybodaeth honno yn ein gwaith.

Os yw cyfyngiadau cronfeydd yn caniatáu, rydym erbyn hyn, yn cynnig arian craidd gyda'r cyfle i grwpiau ymgeisio am grantiau am sawl blwyddyn hyd at dair blynedd.

## Mwy o gefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr am grant

Rydym wedi cynyddu ein cefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr ar ffurf Pecyn Gwaith Grant. Mae'r adrannau presennol yn cynnwys Monitro a Gwerthuso a Llywodraethiant. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y Pecyn Gwaith wrth siarad yn rheolaidd gyda'r ymgeiswyr am grant er mwyn canfod pa meysydd sydd angen cefnogaeth.

Yn ogystal â'r pecyn gwaith, rydym yn cynnig sgyrsiau un i un gyda'r swyddogion grant ble mae grwpiau'n gallu archebu apwyntiad i drafod eu syniadau prosiect cyn ymgeisio.

Rydym hefyd yn rhedeg gweithdai rheolaidd i gefnogi ymgeiswyr i ddeall yn well beth rydym yn chwilio amdano mewn ceisiadau, o ran llywodraethiant gadarn yn ogystal â'r gwasanaethau / prosiectau maen nhw'n gofyn am arian ar eu cyfer. Rydym eisoes wedi cael adborth gwirioneddol bositif o'r sesiynau hyn, gan gynnwys y canlynol:

> **"Fel rhywun heb unrhyw brofiad o ymgeisiadau grant, roedd y wybodaeth yn gynhwysfawr ond yn hawdd ei deall. Atebwyd pob un o'm cwestiynau gan y panelwyr ond roedd hefyd drafodaeth werthfawr yn yr ystafell ymneilluto."**

> **"Roedd yn wych cael gwybodaeth benodol ynghylch beth sy'n gwneud cais da am grant. Roeddwn i'n gwir werthfawrogi cyfarfod â'r tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru. Dydw i ddim wedi ymgeisio am arian eto ond rwyf wedi llenwi adroddiadau diwedd grant felly, mae'r gweithdy wedi fy helpu i deimlo'n wirioneddol hyderus ynghylch ymgeisio yn y dyfodol."**

# Ymateb i anghenion brys

Rydym yn teimlo'n freintiedig bod mewn sefyllfa ble rydym yn gallu ymateb i argyfyngau wrth iddyn nhw'n ddatblygu. Dangosodd y pandemig Covid-19 y gallwn fod yn hyblyg, yn gallu addasu ac yn wydn.

Galwyd ar ein gallu i ymateb yn y ffordd hon unwaith eto pan gafwyd pobl o Afghanistan, ac yn fwy ddiweddar yr Wcrain, eu hunain yn cael eu hadleoli gan wrthdaro ac yn chwilio am loches yng Nghymru.

Er mwyn edrych i'r dyfodol yn ogystal ag ymateb i'r sefyllfa bresennol, dyma ni'n cynnal arolwg a siaradom gyda phartneriaid a chefnogwyr gyda phrofiad o'r pwnc heriol hwn wrth geisio sefydlu cronfa i gefnogi'r argyfwng hwn.

Roedd yr wybodaeth ac arweiniad a dderbyniwyd yn amhrisiadwy wrth ffurfio Cronfa Croeso Cenedl Noddfa.

**"Mae'n amlwg y dylai darparu ar gyfer anghenion hanfodol (tai, bwyd, dillad, gofal iechyd) pobl sy'n chwilio am loches angen bod yn flaenoriaeth, yn aml mae'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw'n sôn am yr effaith mae "disgwyl" i ddechrau ar eu bywydau newydd yn ei gael .ar eu hiechyd meddwl.**

**Mae prosiectau fel ein un ni'n gallu helpu lliniaru hynny trwy alluogi pobl sy'n chwilio am loches i symud ymlaen, i ddechrau neu i barhau eu dysgu, i gymdeithasu, i gymryd rhan weithredol a chyfrannu at eu cymuned leol."**

**"Mae cefnogaeth ar gyfer ein costau craidd, gan gynnwys cyflogau, yn hanfodol er mwyn ein galluogi i addasu i'r gofyn cynyddol am ein gwasanaeth gan bobl yn cyrraedd Cymru."**

Fel cam nesaf, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i'n helpu i adeiladu'r gronfa, gyda'r bwriad o greu gwaddoliad i sicrhau hirhoedledd, gan ein bod yn credu y bydd hyn yn her parhaus am lawer o flynyddoedd i ddod.

Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o sgyrsiau a'r arolwg i'n helpu i ffurfio meini prawf ar gyfer cronfa sy'n addas at y diben; sy'n helpu i lenwi'r bylchau a nodir yn hytrach na dyblygu beth mae eraill yn ei wneud, yn cefnogi'r rhai profiadol yn y problemau sy'n cael eu hwynebu gan bobl yn chwilio am loches ac sy'n darparu cefnogaeth tymor hir yn hytrach na dim ond rheoli argyfwng ar y pryd.


**"Mae wedi bod yn fraint bod yn rhan o'r datblygu o gwmpas Cronfa Cenedl Noddfa, Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae cael ariannwr sy'n cymryd yr amser i ddeall cymhlethdod y sefyllfa sy'n newid o hyd ac sy'n nerthu lleisiau'r sefydliadau wedi bod yn wirioneddol galonogol.**

**Gyda gwybodaeth wreiddiol a chefnogaeth y sector gyfan, bydd yn anochel y bydd arian yn cael ei roi yn y ffordd mwyaf priodol a chefnogol bosibl. Bydd yr arian hwn yn newid bywyd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau'r sector."**

Oasis Cardiff

# Rydym yn gwneud gwahaniaeth

## Benthyg a Chaffi Trwsio Cymru




Llyfrgell o Bethau Cymru yw Benthyg Cymru. Mae'n rhwydwaith o 14 o ganghenau sy'n tyfu gyda'r nod o wneud benthyg 'mor hawdd a phicio allan am dorth o fara'.

Mae Caffi Trwsio Cymru'n cefnogi rhwydwaith o dros 57 o Gaffis Trwsio ble mae gwirfoddolwyr yn trwsio pethau am ddim ac yn rhannu eu sgiliau gydag eraill.

Maen nhw'n derbyn grant oddi wrth Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru er mwyn cydweithio i sefydlu a rhedeg Prosiect Symudol Caerdydd fel prosiect peilot, yn torri cwys am brosiectau tebyg ledled Cymru.

Mae Prosiect Symudol Caerdydd yn defnyddio fan drydan i helpu pobl fenthyg yn hawdd trwy gynnig dosbarthu a chasglu am ddim a thrwsio'n haws wrth gynnig caffis trwsio dros dro a chymryd offer i Gaffis Trwsio newydd wrth iddyn nhw gael eu sefydlu yng Nghaerdydd.

Mae'r prosiect wedi helpu llawer ac wedi cynnig rhywbeth yn lle i ddefnyddio a gwastraff i gymunedau lleol. Mae wedi helpu teuluoedd i arbed arian wrth fenthyg eitemau am bris isel ac wedi rhoi offer garddio ar fenthyg yn achlysurol i erddi cymunedol er mwyn lleihau costau a hefyd yr angen am storio.

> **"Rydym mor ddiolchgar i Fenthyg am drefnu'r cynllun benthyg. Fe wnaeth hi'n fforddiadwy i ni fynd ar wyliau gyda ffrindiau."**



> **"Anhygoel! Wnes i erioed feddwl y gallai hwn cael ei drwsio ac roedd ganddo gymaint o werth sentimental."**



> **"Rwy'n arbennig o ddiolchgar am drwsio tegan 43 mlwydd oed: Roedd yn syml, ond doeddwn i ddim wedi gallu ei wneud – ond roedd Caffi Trwsio Cymru'n gwybod sut ac mi oedd y defnyddiau ganddynt."**



# Stepping Stones



Darparodd Stepping Stones gefnogaeth a chwnsela i oedolion a oedd yn goroeswyr camdrin rhywiol yn blant.

Daeth grant oddi wrth Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru tuag at eu prosiect 'Cam wrth Gam Coginio ac Ymlacio' er mwyn helpu'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw i ddeall sut mae'r bwyd y maen nhw ei fwyta'n effeithio ar eu bywyd, teulu, iechyd, hwyliau a chyllideb.

Galluogodd y grant i bob aelod o'r prosiect allu rhwng cymryd rhan mewn dosbarthiadau coginio, coginio gyda chynhwysion ffres, dilyn ryseit, cyllidebu a chynllunio bwydlen. Roedd pawb yn gallu cael mynediad at 'Gardd Tyfu gyda Hyder' a gwella'u sgiliau garddio a thyfu eu ffrwythau a llysiau at ddefnydd coginio yn y cartref.

Dywedodd pawb a gymerodd ran fod eu hiechyd meddwl a'u llesiant a'u hymwybyddiaeth o fwyd wedi gwella'n sylweddol trwy gymryd rhan yn y prosiect.

> **Rwy'n dioddef o orbryder ac iselder ac mae'r prosiect hwn wedi rhoi hwb i'm hwyliau a llesiant y tu hwnt i bob disgwyl.**
>
> **Mae wedi galluogi fy nheulu i dyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain ac wedi rhoi diben ac awydd i mi fynd i'r awyr agored a chyflawni cymaint yn fwy nag yr oeddwn i'n meddwl y gallwn.**

> **Mae bod yn rhan o'r prosiect hwn wedi rhoi'r brwdfrydedd i mi fynd allan fwy, bwyta'n well a gwella fy iechyd yn gyffredinol, sydd wedi cael effaith positif anfesuradwy ar fy iechyd meddwl.**

# Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon



Yn cael ei alw'n 'hwb y gymuned', mae The Feel Good Factory yn cynnig ystod enfawr o wasanaethau, yn enwedig ar gyfer trigolion hŷn. Mae hefyd yn gartref i Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon sy'n darparu cysylltiad a chefnogaeth cymdeithasol sydd fawr ei angen i denantiaid a thrigolion yn yr ardal.

Rhoddwyd grant o £5,000 i Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon oddi wrth Cronfa Buddsoddi Cymunedol Trivallis er mwyn eu galluogi i gynnal sesiynau te prynhawn rheolaidd ar gyfer trigolion hŷn ac ynysig.

Mae Covid-19 wedi cael effaith anferth ar unigolion bregus ac unig ac mae'r sesiynau te prynhawn wythnosol wedi helpu i gael pobl allan o'u tai ac wedi galluogi trigolion lleol i gadw cysylltiad gyda ffrindiau hen a newydd.

> **Mae pawb mor garedig ac mor ofalgar ac mae'r bwyd yn rhagorol; mae'n braf ei gael wedi'i baratoi ar ein cyfer. Mae'n gwneud i ni deimlo'n well amdanom ein hunain yn feddyliol. Byddwn ar goll hebddo ac mae'n rhywbeth i edrych ymlaen ato a mwynhau pob ymweliad.**

> **Rydym yn ceisio bod fel teulu, ac i'r rhai nad ydynt yn gallu dod, rydym yn rhoi te prynhawn iddynt. Dyma sy'n eu cadw i fynd, maen nhw wrth eu bodd ac yn gobeithio y gallen nhw ddal i ddod.**

# Prosiect Partner Geni



Mae'r Prosiect Partner Geni'n darparu partneriaid geni gwirfoddol i gefnogi merched sy'n ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches a fyddai fel arall yn wynebu rhoi genedigaeth ar eu pen eu hunain.

Yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid i'r Prosiect Partner Geni ganfod ffordd o addasu eu gwasanaeth a oedd yn draddodiadol yn dibynnu ar gefnogaeth wyneb yn wyneb mewn ffordd a oedd yn ystyrlon, yn ddiogel ac o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae cynhwysedd ddigidol wedi bod yn allweddol mewn cadw cysylltiad â'r merched y maen nhw'n eu helpu ac mae'n dal i ddarparu iddyn nhw'r gefnogaeth a'r wybodaeth hanfodol.

Galluogodd grant gan Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru y Prosiect Partner Geni i redeg rhaglen cynhwysedd ddigidol yn canolbwyntio ar wella llesiant yn hwyr mewn beichiogrwydd ac yn gynnar ar ôl dod yn fam. Roedd hynny'n cynnwys cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau llesiant creadigol a llawn gwybodaeth.

Roedd yr arian hefyd wedi'u helpu i ddosbarthu 15 pecyn digidol a oedd yn cynnwys tabledau, data a chlustffonau a oedd yn eu galluogi i ddod â chyfieithwyr i mewn er mwyn sicrhau fod yr holl ddosbarthiadau a sesiynau gwybodaeth yn hygyrch i bawb.

Ers rhedeg y prosiect cynhwysedd ddigidol, mae'r Prosiect Partner Geni wedi gweld hyder y merched maen nhw'n eu cefnogi yn cynyddu, gyda merched sy'n mynychu'r dosbarthiadau yn dweud:

> "Gwnaeth y prosiect hwn newid enfawr yn fy mywyd. Roeddwn i'n styc y tu fewn yn syllu ar bedair wal. Ers cymryd rhan, mae'r prosiect wedi newid sut rwy'n edrych ar fy mywyd ac eisiau gwneud pethau. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi pethau i mi eu gwneud ac i edrych ymlaen atyn nhw."



> "Mae fy rhan yn y prosiect wedi fy helpu i ddeall bywyd yn y wlad hon."

> "O'r blaen doeddwn i ddim yn hyderus iawn yn siarad Saesneg. Nawr, hyd yn oed os nad wyf yn gywir, rwy'n hoffi rhoi tro arni."



> "Rwyf ar fy mhen fy hun gyda'r babi bob amser felly, ers cael y tabled, rwyf wedi gallu gwneud ymchwil ac edrych pethau i fyny mewn perthynas â hi."

# Gweithio gyda'n gilydd

## Partneriaethau newydd

Bu'n ddechrau prysur arall i'r flwyddyn yn Sefydliad Cymunedol Cymru. Ers llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, rydym wedi sylwi ar gynnydd go iawn yn ein cefnogaeth sylfaen. Mae hynny wedi bod yn rhannol oherwydd y gwaith a gwblhawyd yn ystod y pandemig, cysylltu a nifer o bartneriaid er mwyn dosbarthu dros £6 miliwn i filoedd o sefydliadau llawr gwlad a gwirfoddol ar draws Cymru gyfan.

Daeth Cymdeithas Adeiladu'r Principality atom i greu cronfa newydd, yn eu helpu nhw yn eu cenhadaeth i gynyddu disgwyliadau pobl ifanc ledled Cymru. Mae'r busnes sydd mewn perchnogaeth yr aelodau yn gweithio gyda ni er mwyn cyflenwi grantiau o hyd at £5,000 yr un ar gyfer Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn annog pobl ifanc i baratoi sgiliau ar gyfer eu byd gwaith yn y dyfodol, arian personol, canfod cyflogaeth a byw bywydau mwy cynaliadwy.

## Ffrindiau Newydd

Mae'n rhwydwaith Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru wedi tyfu ymhellach, ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth rydym yn ei derbyn oddi wrth pob un o'n haelodau.

Am gyfraniad aelodaeth blynyddol o £100 i unigolyn neu £500 i sefydliad, gall Cyfeillion:

- amlygu eu cysylltiad â Sefydliad Cymunedol Cymru;
- dangos eu cefnogaeth i elusen Gymreig leol;
- derbyn blaenoriaeth wrth gael gwahoddiadau i'n digwyddiadau;
- derbyn diolch yn fawr personol ar ein gwefan ac yn ein hadolygiad blynyddol;
- cael cyfleodd i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ar lein ac yn y wasg;

Isod, mae rhai o'n Cyfeillion yn egluro pam eu bod wedi ymuno â'r rhwydwaith:



Annwen Jones

**Roeddwn i'n Gyfaill Sefydliad Cymunedol Cymru oherwydd bod ganddyn nhw genhadaeth syml ond nerthol i wella bywydau pobl yng Nghymru – maen nhw'n gweithio ledled y wlad – wrth gysylltu'r rhai sydd eisiau rhoi gydag achosion mae ganddyn nhw'r ots mwyaf amdanynt.**



David Gold

**Dydw i ddim yn gwybod sut i ddewis prosiectau o fewn gwahanol cymunedau ar draws Cymru, ond mi wn fod Sefydliad Cymunedol Cymru'n deall pa themâu ac ardaloedd sydd gyda'r angen mwyaf. Rwy'n ymddiried yn y tîm talentog iawn i wneud y gorau allan o'm rhodd. Roedd dod yn gyfaill yn ymddangos yn ffordd hawdd o fuddsoddi yn y gymuned heb orfod cael yr wybodaeth angenrheidiol am y prosiectau o'm cwmpas.**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Y flwyddyn o'n blaen

## Ein nodau:

### Rydym yn newid bywydau gyda'n gilydd

- Bydd gennym well dealltwriaeth o'r gwahaniaeth mae'n harian wedi'i wneud i fywydau unigolion yng Nghymru.
- Byddwn wedi gwella'r ffordd rydym yn rhannu'n dysg.
- Byddwn wedi ffurfio partneriaethau cryf ar draws y sector a fydd yn ein galluogi i gysylltu cefnogwyr yn fwy effeithiol gyda phrosiectau.

### Byddwn yn cynyddu haelioni a rhoi elusennol yng Nghymru

- Bydd gennym rwydwaith ehangach o gefnogwyr trwy gysylltu'n fwy effeithiol ar draws yr holl sianelau.
- Trwy ein cysylltiadau allanol byddwn wedi bod yn ddylanwadol mewn dod â mwy o arian i mewn i Gymru.

### Rydym eisiau Cymru gyda chymunedau cryf, bywiog

- Byddwn yn cryfhau ein dulliau o gyflwyno grantiau trwy wella ein prosesau.
- Bydd sut rydym yn gweithio'n fwy cynrychiadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Byddwn wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i dyfu ac i gryfhau er mwyn cyfarfod ag anghenion y rhai maen nhw'n eu cefnogi.

# Diolch



Felly, dyna stori Sefydliad Cymunedol Cymru yn 2021 / 22.

Blwyddyn pan, yn fwy nag erioed, rydym wedi gwrando ar anghenion y cymunedau ledled Cymru, ac wedi ymateb trwy weithio gydag arianwyr, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill.

Beth sy'n gwneud Sefydliad Cymunedol Cymru'n arbennig yw ein bod yn anelu at adeiladu arian cynaliadwy ar gyfer cymunedau Cymru, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd ein cronfeydd gwaddol yma ar gyfer y genhedlaeth nesaf a'r rhai ar ôl hynny. Ynghyd â'n partneriaid rydym yn adeiladu rhywbeth arbennig i Gymru a fydd yn cryfhau cymunedau ymhell y tu hwnt i'n hoes ni.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith eleni ac rydym yn estyn gwahoddiad cynnes i bawb ymuno â ni ar y daith hon.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda ni fel rhoddwr, os hoffech ein helpu i lledaenu'r gair yn eich cymuned leol neu ein cefnogi mewn ffordd arall - byddwn wrth ein bodd clywed oddi wrthych.

Diolch yn fawr

Richard Williams

**Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

Community Foundation Wales
St Andrews House
24 St Andrews Crescent
Cardiff
CF10 3DD

02920 379580

www.communityfoundationwales.org.uk

info@communityfoundationwales.org.uk

@foundationwales

@walescf

Rhif Elusen 1074655
Rhif cwmni 03670680
Sefydliad Cymunedol Cymru yw enw masnachu The Community Foundation yng Nghymru